Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee
Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol | Targeted Funding to Improve Educational Outcomes
TF 06
Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Gwerthfawroga UCAC y cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau mewn addysg. Byddai UCAC yn barod i ddarparu rhagor o dystiolaeth, llafar neu ysgrifenedig, petai hynny'n fuddiol i'r Pwyllgor.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

## Defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion a'r graddau y mae o fudd i'r disgyblion a dargedir

### Y berthynas rhwng cymorth a ariennir gan y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n gymwys am ginio am ddim a gwariant ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella cyrhaeddiad pob disgybl;

Yn sgil y wasgfa gyffredinol a chynyddol ar gyllidebau ysgolion, yr hyn mae aelodau UCAC yn eu hadrodd wrthym yw bod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio mwyfwy i dalu am staff ychwanegol - cynorthwywyr dysgu, fel rheol - yn hytrach nag unrhyw ymyraethau mwy arbenigol eraill.

Gall y rhain fod yn staff sy'n gweithio'n benodol gyda phlant sy'n gymwys am ginio am ddim, neu fel ffordd o gynnig cefnogaeth ychwanegol yn y dosbarth yn fwy cyffredinol, gan gynnwys y plant sy'n gymwys am ginio am ddim.

Caiff hyn ei wneud am sawl rheswm:

- mae maint dosbarthiadau'n cynyddu, a hynny heb fod cynnydd yn y lefelau staffio; mae athrawon ac arweinwyr yn teimlo nad oes modd rhoi'r sylw unigol sydd ei angen ar rai disgyblion; mae arweinwyr ysgolion cynradd yn adrodd nad yw'r Grant Cyfnod Sylfaen bellach yn ddigonol i dalu am y niferoedd staff angenrheidiol
- nid oes gan ysgolion ddigon o gyllid (arferol) i gynnal eu grwpiau a'u gwaith ymyrraeth bellach, ac mae hynny'n cael effaith negyddol ar y gallu i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr bregus, neu ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu arbenigol o unrhyw fath

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn gallu mynd rhyw ffordd tuag at lenwi rhai o'r bylchau hynny, ac mae ysgolion yn gweld hynny fel mater o flaenoriaeth.

### Gwerthuso'r data cyrhaeddiad yng ngoleuni rhaglen Grant Datblygu Disgyblion a rhaglen Her Ysgolion Cymru

Mae nifer o ffactorau'n golygu y gall fod yn anodd gwerthuso effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar y data cyrhaeddiad:

- mewn ysgolion sydd â chanran fach o ddisgyblion sy'n gymwys am ginio am ddim, mae'r disgyblion wedi'u gwasgaru ar draws y dosbarthiadau, a gall fod yn anodd dangos sut maent yn cael eu targedu, a beth yw effaith y Grant arnynt
- fel y dywedwyd uchod, mae tuedd i wario'r Grant mewn modd mwy holistaidd (aelod staff ychwanegol mewn dosbarth) a llai penodol (nid ymyriad sy'n targedu disgybl neu grŵp o ddisgyblion penodol), sydd yn ei dro yn ei gwneud hi'n anoddach mesur yr effaith

### Targedu cyllid/cefnogaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog

Mae teimlad ymhlith rhai nad oes angen cyllid neu gefnogaeth ychwanegol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mater i athrawon yw sicrhau eu bod yn ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog a hynny o fewn y dosbarth a'r cynllun gwers arferol.

### Gwerth am arian y rhaglen Grant Datblygu Disgyblion a rhaglen Her Ysgolion Cymru

Mae maint dosbarthiadau yn thema sy'n codi'n gyson ac yn gynyddol fel problem gan ein haelodau, yn athrawon dosbarth ac yn arweinwyr ysgol. Yn y sefyllfa sydd ohoni, mae teimlad mai'r defnydd gorau o'r

arian fyddai i fynd tuag at leihau maint dosbarthiadau, ac y byddai hynny'n cael effaith gadarnhaol, gyffredinol ar ansawdd a safonau, gan gynnwys y disgyblion hynny sy'n gymwys am ginio am ddim.

Nid yw aelodau, yn gyffredinol, yn ymwybodol o sut cafodd yr arian i leihau maint dosbarthiadau babanod ei ddyrannu, ac nid ydynt, yn gyffredinol wedi gweld yr effeithiau yn eu dosbarthiadau/ysgolion nhw. Cafodd y canllawiau ar gyfer dyrannu'r arian eu cyhoeddi fisoedd lawer ar ôl y cyhoeddiad bod yr arian ar gael, a'r Awdurdodau Lleol gwnaeth y ceisiadau, heb fod ysgolion yn ymwybodol o'r broses o gwbl. Awgrymwn fod hyn yn thema y gallai'r Pwyllgor ystyried ymchwilio iddo yn y dyfodol.

O gymryd cam yn ôl, gellid dadlau mai'r gwerth gorau am arian fyddai defnyddio'r grant i sicrhau ymyraethau penodol, arbenigol - ac ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw sefyllfa gyllidebol ysgolion yn caniatáu hynny ar hyn o bryd.

Mae'n gwbl glir mai llenwi'r bylchau mae'r Grant yn ei wneud ar hyn o bryd, yn hytrach na chael ei ddefnyddio i ymestyn a darparu ymhellach. Hoffem fod yn gwbl glir nad oes bai ar ysgolion am wneud y penderfyniadau hynny; nid yw eu sefyllfa gyllidebol yn cynnig fawr o ddewis iddynt.